Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Powys

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Powys.
Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 68 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 21
- Ceidwadwyr Cymreig 14
- Llafur Cymru 9
- Annibynwyr 8
- Annibynwyr ar gyfer Powys 6
- Heb eu dynodi 6
- Plaid Cymru 3
- Gwyrdd 1

Gwariodd y Cyngor £322.8 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2022-23[2].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau, a llog ar ddyledion.

[2] Ffynhonnell: Datganiad o'r Cyfrifon 2022-23

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £64 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn gywerth â 19.8% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae gan Bowys 1% o'i 79 o ardaloedd a ystyrir i fod o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru, dyma'r ail isaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[5].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn cynyddu gan 1% rhwng 2023 a 2043 o 132,600 i 133,900, gan gynnwys gostyngiad o 6% yn nifer y plant, gostyngiad o 8% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 22% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[6].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2022-23 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf, na grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[4] Ffynhonnell: Datganiad o'r Cyfrifon 2022-23

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[6] Ffynhonnell: Ffynhonnell: Stats Cymru, Amcanestyniadau o'r Boblogaeth

# Yr hyn a nodwyd gennym

## Archwilio Cyfrifon 2022-23 Cyngor Powys

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.



**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

### Ar gyfer 2022-23:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2023. Roedd hyn cyn y dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 31 Gorffennaf 2023.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 28 Tachwedd 2023, cyn y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef, 30 Tachwedd 2023. Ymdriniwyd ag effaith y gofynion safonol archwilio newydd yn ein cynllun archwilio a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 28 Gorffennaf 2023.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac ein gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn deillio o'n gwaith archwilio, ac adroddwyd ar y rhain i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2023.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio 11 o hawliadau a ffurflenni grant. Ni nodwyd unrhyw broblemau arwyddocaol yn ein gwaith hyd yma.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 wedi cael ei gwblhau.

## Adolygiad asesu risg a sicrwydd

Gwnaethom adolygu’r trefniadau a roddir ar waith gan y Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.  Gwnaethom gynhyrchu'r adroddiadau canlynol yn deillio o'n gwaith sicrwydd ac asesu risg:

- Gwaith Adolygu Sicrwydd ac Asesu Risg yn 2021-22 – gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar y Sefyllfa Ariannol, Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a threfniadau Hunanasesu a chynllun lleihau Carbon.

  Gwelsom fod:

  - cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i wella sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â phwysau sylweddol o ran costau sy'n dod i'r amlwg.
  - y Cyngor yn sefydlu trefniadau i sicrhau ei hun ei fod yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chynhyrchu ei adroddiad hunanasesu.
  - Mae gan Bowys ddealltwriaeth glir o raddfa'r agenda hon ac mae strwythurau cynhwysfawr ar waith i ddatblygu a rheoli gweithgaredd. Fodd bynnag, nid yw eto wedi cyhoeddi cynllun gweithredu sero net wedi'i gostio'n llawn ac mae angen iddo ymgymryd â gwaith ychwanegol i ddeall cost ei holl weithgarwch arfaethedig yn llawn sy’n gyfrannu at yr agenda sero net.

- Fel rhan o'n Hadolygiad ar Sicrwydd ac Asesu Risg yn ystod blwyddyn archwilio 2022-23, cynhyrchwyd yr adroddiad canlynol gennym:

  - Pennu amcanion llesiant – gwnaethom edrych ar ddull y Cyngor o ran pennu ei amcanion llesiant. Canfuom fod y Cyngor wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth bennu ei Amcanion Llesiant. Fodd bynnag, dylai dynnu ar farn fwy amrywiol ymysg ei ddinasyddion ac ymgorffori ei drefniadau monitro newydd yn llawn.

## Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio (Mai 2023)

Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn i geisio sicrwydd a rhoi mewnwelediad o ran a yw gwasanaeth cynllunio'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Gwnaethom adrodd: ‘Mae gennym bryderon am wendidau strategol, gweithredol a diwylliannol sylfaenol Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor. Mae'r gwendidau hyn yn rhwystro ei allu i ategu staff ac Aelodau yn gyson ac yn gynaliadwy i ddarparu gwasanaeth effeithiol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol.'

## Llamu Ymlaen: Rheoli Asedau (Hydref 2023)

Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gan ganolbwyntio ar lety swyddfa ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt. Gwnaethom edrych ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol y defnydd o'i asedau, sut mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau. Dywedom: Mae’r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau glir, ond nid yw wedi alinio ei gynllun busnes a'i fonitro perfformiad eto.'

## Adolygiad o Strategaeth Ddigidol (Rhagfyr 2023)

Yn ystod 2022-23, gwnaethom archwilio dull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor. Canfuom fod gan y Cyngor ddull strategol clir a datblygedig o ymdrin â materion digidol.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiadau Estyn, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb iddynt.

## Gwaith parhaus

Gwnaethom hefyd edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Mae ein gwaith parhaus yn cynnwys:

- Sicrwydd ac Asesu Risg
- Adolygiad thematig – cynaliadwyedd ariannol
- Adolygiad thematig – comisiynu
- Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol (gwaith archwilio 2023-24) a gwaith Dilynol ar Graffu (gwaith archwilio 2022-23 i'w wneud ar yr un pryd â'r Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol fel y cytunwyd gyda'r Cyngor)
- Gofal heb ei Drefnu (gwaith archwilio 2022-23). Adroddiad yn cael ei gwblhau

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.  Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, pob un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.